BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

# Lles Amgylcheddol

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board

'Dydw i ddim yn gwybod ai newid hinsawdd oedd ar fai, ond roedd y llifogydd hynny'n ofnadwy ac rwy'n credu ein bod yn mynd i weld mwy ohonynt ond allaf i ddim fforddio symud'

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae bod yn nes at natur yn cefnogi gwell lles meddyliol a chorfforol

- Rydym yn teimlo'n ffodus i gael mynediad i fannau gwyrdd 'ar garreg ein drws'.
- Mae gennym dros 1,550 km o hawliau tramwy cyhoeddus am ddim a 19Km o lwybr arfordirol.
- Mae gennym barciau a thraethau o'r radd flaenaf, gyda 13 Baner Werdd, 21 Baner Gymunedol Werdd, a 3 gwobr Baner Las.
- Dyma ganran y mannau gwyrdd hygyrch o fewn 300m i gartrefi:
  - 67% ym Mhen-y-bont ar Ogwr
  - 57% ym Merthyr Tudful
  - 27% yn Rhondda Cynon Taf.
- Er i ni ddweud ein bod wedi defnyddio mannau gwyrdd yn fwy yn ystod y pandemig, os ydym yn llai cefnog, fe wnaethom ni ddefnyddio llai ar fannau gwyrdd.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae ansawdd aer gwael yn effeithio ar iechyd a'r amgylchedd

- Mae ansawdd aer yn dda ar y cyfan ond mae lefelau uchel o NO2 ar gyffyrdd prysur.
- Mae llygredd aer a sŵn ar ei uchaf mewn ardaloedd llai cefnog.
- Mae gennym 3 lleoliad yng Nghwm Taf Morgannwg lle mae lefelau llygredd yn uwch na'r safon genedlaethol.
- Mae ein Prosiect Llethrau Llon wedi lleihau nifer y tanau gwyllt a'r effeithiau a gânt ar ein hardal.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae'r perygl o lifogydd i bobl a busnesau yn sylweddol

- Mae 40,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd ac mae hyn yn debygol o gynyddu gyda'r Newid yn yr Hinsawdd.
- Dŵr ffo gormodol sy'n peri'r risg uchaf o lifogydd.
- Bydd deall yr ardal gyfan yn ein galluogi i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio atebion 'gwyrdd'.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae afonydd iach yn bwysig i bobl ac yn gwneud natur yn fwy gwydn

- Dim ond 23% o afonydd sydd mewn cyflwr Da, tra bod dros draean mewn cyflwr Gwael neu Sâl.
- Rhwng 2016 a 2020 roedd dros 140 o achosion o lygredd.
- Mae Prosiect Adfer Dalgylch Taf Bargoed yn gweithio gyda chymunedau i wneud yr afon yn iach.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae angen cryfhau bioamrywiaeth

- 'Mae angen i ni wneud mwy i helpu'r amgylchedd'.
- Mae gennym dirwedd unigryw sydd wedi'i siapio gan ein gorffennol diwydiannol. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd a heriau i ni.
- Heb ecosystem iach ni all ein hadnoddau naturiol ddarparu ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- Mae pobl yn dibynnu ar natur i ddarparu bwyd a dŵr glân.
- Mae 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.
- Yn y DU, mae lledaeniad rhywogaethau wedi gostwng 5% ers 1970, gyda 2% yn ystod y degawd diwethaf.
- Nid yw ein Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig pwysicaf yn iach.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae angen inni ddefnyddio ein hadnoddau'n well

- Mae Cymru'n defnyddio adnoddau adnewyddadwy ac anadnewyddadwy mewn ffordd anghynaladwy.
- Mae cynghorau'n ailgylchu mwy na 64% o wastraff.
- Gall fferm wynt Pen y Cymoedd gynhyrchu digon o drydan i bweru 15% o gartrefi Cymru bob blwyddyn.
- Mae delio â thipio anghyfreithlon a sbwriel yn gostus ac yn effeithio ar gymunedau ac ar fywyd gwyllt.
- Mae arfordir Cymru'n cynnig cyfleoedd i 'ddal' carbon a gallai ein helpu i ymateb i Argyfyngau Hinsawdd a Natur.

Mae'r adroddiad asesu llawn i'w weld yn:

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Phen-y-Bont ar Ogwr**

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board